

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 07.07.2015
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ;Danny Davies, Arwel Nicholas, Pamela Jones, Dylan Jones, Carolyn Smethurst, Elfed Davies, Cyngorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau: Wyn Thomas, Mike Poston.

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Arwel Nicholas – Cofeb yn y Neuadd Goffa	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir, AN, eiliwyd, ED	
Materion yn Codi	<p>Priffyrdd - Adran Priffyrdd wedi gosod ARAF ar heol Rhiw Graig a gerllaw tŷ Ralph Carpenter, rhagor I ddod. Gosodir mwy o arwyddion gerllaw Eglwys St Celynin ym Mis Tachwedd.</p> <p>CS – Sonnir bod cyniciau cyflymdra a ‘chicane’ l’w gosod ym Mronwydd, angen trafod hwn ymhellach Trigolion Clifford House yn dweud bod gosod y llinellau gwyn ar Rhiw Graig wedi digwydd am 2.00 yb!</p> <p>IJ – Daeth y Cyngor Sir a bin baw cŵn i fyny, ond gan fod un yno yn barod, ni adawyd.</p> <p>CS – Llwybyr cyhoeddus Nantgwyn. Brinley Jones yn gofyn am ganiatad I newid cyfeiriad y llwybyr fel na fydd yn mynd drwy’r clôs</p> <p>CS – Y Ficerdy; adeiledir un cartref ac nid dwy. Nid oedd amod ar y cais cynllunio fod rhaid creu mynedfa newydd a phalmant cyn cychwyn yr adeiladu</p> <p>ED – Y Clerc wedi cyflwyno siec fel cyfraniad o Gronfa Jenny Eirian l’r Ysgol ar ran Sion Eirian, mab y diweddar Jenny Eirian Davies.</p> <p>Y Clerc heb gadarnhau perchnogaeth diffaethwch gerllaw Penbontbren.</p> <p>Cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn gynnar ym Mis Medi ar ôl l’r Cyngor drafod Cynllun Rheolaeth Trafnidiaeth; rhoi cyfle l’r Pentrefwyr dweud eu barn er mwyn osgoi rhoi’r bai ar y Cyngor.</p>	
Gohebiaeth	<p>Llwybrau Diogel I Gymunedau – gwneud nodyn yn y Cofnodion ar gyfer y flwyddyn nesa I baratoi yn fwy buan ar gyfer gwneud cais. IJ yn dweud fod bodolaeth yr Ysgol yn cryfhau’r cais.</p> <p>CS – angen trafod Llwybrau Diogel yn y Cyfarfod Cyhoeddus, CS am gael dyddiad ar ei gyfer er mwyn ei hysbysu yn LI y LI. IJ yn awgrymu danfon llythyr at Mathew Howells I ofyn a fydd modd gwneud gwelliannau rhwng y Neuadd a’r Ysgol</p>	

Cynllunio	Gwylfa – dim sylwadau Felinfach – dim sylwadau	
Materion Ariannol	Trywydd- £44.40. Cytunwyd ei dalu, PJ, eiliwyd gan DJ Yswiriant Zurich - £639.17. Cytunwyd ei dalu, PJ, eiliwyd gan DJ	
UFA	<p>AN – Arwyn Thomas wedi darganfod gwybodaeth am hyd at 3 milwr arall o'r Plwyf a fu farw yn y Rhyfel Mawr; efallai daw rhagor o enwau allan o'r Swyddfa Ryfel. Wedi gofyn I'r Clerc I godi'r testun ar yr Agenda....IJ wedi dod o hyd I 4 milwr a chysylltiad a Bronwydd.</p> <p>Odi'r Cyngor yn fodlon gosod carreg ar wal y Neuadd I 2 neu 3 milwr? Cost y gofeb fydde tua £700. DD yn cynnig gohirio gwneud penderfyniad. AN am osod cofeb ar gyfer 2 neu 3. PJ yn cynnig gan ei fod ar gyfer y gymuned gyfan, dylai'r Cyngor dalu rhywfaint o'r gost. ED yn cynnig cofio'r 3. Penderfynu'n unfrydol I goffhau y 3 ac I dalu'r gost yn llawn.</p> <p>PJ – cwyn wedi ei dderbyn ynghylch cyflymder Band Llydan. Ateb BT oedd bod angen diwygio'r gwifrau o'r Gyfnewidfa. CS yn dweud bod BT wrthi yn diweddarau'r gwifrau ac y bydd y gwaith wedi ei orffen tua diwedd Mis Medi. IJ yn dweud fod polion newydd yn cael eu gosod ym Mronwydd, arwydd efallai fod gwasanaeth gwell ar y ffordd! CS yn awgrymu gofyn I BT faint o gartrefi Llanpumsaint fydd yn elwa o'r wasanaeth diwygiedig.</p> <p>ED – Celynos wedi cael gwaith wedi ei wneud ar yr heol tu flaen I'r tŷ, beth oedd y broses? Mae'r Clerc yn danfon llythyron yn barhaus gan gyfeirio at waith sydd angen ei wneud; sut gwnaethpwyd y gwaith hyn mor fuan?</p> <p>CS – Angen dyddiad y Cyfarfod Cyhoeddus ar gyfer LI y LI cyn canol Mis Awst.</p> <p>DJ – Sgwâr Nebo; a fydde'r Cyngor yn fodlon gosod tar arno pe bai wal yno?</p> <p>DD – Bont Newydd; cerrig wedi cwmpo allan o'r wal I'r heol. Clerc I ddanfon e-bost at Tony Williams a chopi I IJ.</p>	
Cyfarfod yn gorffen	8.50	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgriennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: